Diweddariadau o WCVA

19 Chwefror 2018

Helo, a chroeso i'n cylchlythyr.

Cwta wythnos sydd i fynd tan y dyddiad cau yn etholiadau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Y Cyngor Partneriaeth yw'r prif fecanwaith ar gyfer trafodaeth reolaidd rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru, a cheir ynddo gynrychiolwyr sy'n cael eu henwebu mewn 25 o gategorïau o ddiddordeb yn y trydydd sector. Os oes gennych rwydwaith neu fudiad yr hoffech iddo gynrychioli'ch categori chi, anfonwch ebost at Fiona cyn y dyddiad cau sef 23 Chwefror.

Mae gwirfoddoli amgylcheddol yn ffordd wych o gefnogi'r blaned wrth roi'n ôl i'ch cymuned leol. Mae Environet Cymru newydd ryddhau'r Pecyn Cymorth Gwirfoddoli Amgylcheddol, sef canllaw hwylus i helpu darpar wirfoddolwyr i benderfynu pa fath o wirfoddoli amgylcheddol fydd yn gweddu orau iddyn nhw. Mae'r pecyn yn cynnig cyngor ymarferol i wirfoddolwyr ddefnyddio eu sgiliau unigryw i helpu'r amgylchedd. I weld sut y gallwch chi fynd ati i wirfoddoli dros yr amgylchedd, ewch ar dudalen Environet ar ein gwefan.

Yn olaf, gallwch bellach gadw lle mewn digwyddiadau unigol yn gofod3 - felly nawr nid yn unig y mae'r tocynnau'n mynd fel slecs ond mae'r sesiynau'n llenwi hefyd! Felly cofiwch gadw'ch lle, yn rhad ac am ddim, ar wefan gofod3.

Mwynhewch y cylchlythyr, ac fe welwn ni chi gyd eto wythnos nesaf.

Gwirfoddoli
Eich cyfle i glywed am y datblygiadau diweddaraf mewn Gwirfoddoli

Bydd y rownd nesaf o ddigwyddiadau ymgysylltu Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn canolbwyntio ar gwirfoddoli.
Arolwg Cyflog a Chydraddoldeb 2018

Yn ôl yr arolwg cyflog a chydraddoldeb diweddaraf gan ACEVO, mae'r sector elusennol wedi methu â sicrhau cynnydd arwyddocaol yn y gyfran o brif weithredwyr a ddaw o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.
Gwirfoddolwyr a'r gyfraith

Mae National Council for Voluntary Organisations (NCVO) wedi diwygio'r canllaw cynhwysfawr 'Volunteers and the law' sy'n helpu mudiadau i ddeall yr hawliau a'r rhwymedigaethau cyfreithiol wrth reoli gwirfoddolwyr
Gwneud gwahaniaeth i bobl sydd ag anabledd. Hanes Janice

Mae Janice Powers yn gwirfoddoli gyda Shelter Cymru, ac yn y rôl hon mae hi'n cefnogi pobl sy'n dod at y prosiect i ofyn am gyngor neu wybodaeth gyda thai, budd-daliadau neu ddyled.

Cyffredinol WCVA

Datganiad WCVA: ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau

Mae WCVA wedi rhyddhau datganiad yn sgil y cyhoeddiad ddydd Llun fod y Comisiwn Elusennau wedi agor ymchwiliad statudol i Oxfam.

Cyffredinol trydydd sector

Nesta yn lansio Gwobrau 'Good Help'

Mae Nesta yn chwilio am geisiadau gan fudiadau sy'n helpu pobl i weddnewid eu bywydau drwy weithgareddau 'cymorth da'.

Allech chi helpu pobl sydd mewn sefyllfa ariannol fregus i gael cymorth gyda'u biliau dwr?

Mae gan Dwr Cymru gynlluniau cymdeithasol amrywiol i gwsmeriaid sydd mewn sefyllfa ariannol fregus ac mae'n chwilio am fudiadau trydydd sector a all helpu pobl i gael at y cymorth.

Cyllid

Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau i Gynllun Grant Canmlwyddiant y Bleidlais i Fenywod

Mae grantiau gwerth rhwng £500 a £20,000 ar gael i fudiadau trydydd sector, mudiadau cymunedol a grwpiau cymunedol, ar gyfer prosiectau a/neu ddigwyddiadau a fydd yn nodi'r canmlwyddiant.

Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post yn lansio rownd gyntaf Rhaglen Grantiau Cymunedol 2018

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post yn 2014 i gynorthwyo grwpiau ymylol i ennill y sgiliau a'r adnoddau i greu newid yn eu cymunedau.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Creu cysylltiadau rhwng mentrau cymdeithasol a busnesau

Gweithdy am ddim i archwilio a datblygu perthynas effeithiol rhwng mentrau cymdeithasol a busnesau.

Cynhadledd Llywodraeth Agored - 15 Mawrth, Belfast

Ynghyd â chydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, mae Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru wedi bod

yn brysur yn trefnu'r gynhadledd Ailddychmygu Democratiaeth ar gyfer Llywodraeth Agored, a gynhelir ym Melfast ddydd Iau 15 Mawrth.
Ymgysylltiad cyhoeddus: damcaniaeth ac ymarfer

Cyfle olaf! Cwrs hyfforddiant Ymgysylltu cynhwysfawr, ac achrededig
Ymgysylltu arlein

Dewch i adnabod eich cynulleidfa arlein a chreu cynnwys arloesol i ateb eu hanghenion
Dwyieithrwydd ar waith

Hyfforddiant datblygu gwasanaethau dwyieithog i'r trydydd sector
Gweithdai hyfforddwyr Diogelu

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnig tri diwrnod o hyfforddiant am ddim i gefnogi hyfforddwyr i ddarparu pecyn Hyfforddi Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan. Mae'r hyfforddiant yn addas ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Polisi a gwleidyddiaeth
Ymgynghoriadau'r wythnos yma

A oes angen rhagor o ACau arnom?

Latest news from WCVA

19 February 2018

Hello, and welcome to our newsletter.

There's only a week to go until the closing date for the Third Sector Partnership Council (TSPC) elections. The TSPC is the primary mechanism for the third sector to engage with the Welsh Government, and features elected representatives covering each of the 25 categories of interest within the third sector. If you have a network or organisation you'd like to represent your category, please email Fiona before the deadline on 23 February.

Environmental volunteering is a great way to support the planet whilst giving back to the local community. Environet Cymru have just released the Environmental Volunteering Toolkit, a handy guide to help potential volunteers decide which aspects of environmental volunteering will suit them the most. The toolkit offers practical advice for volunteers to utilise their unique skills to help the environment. To see how you can get involved in environmental volunteering, visit the Environet page on our website.

Finally, you can now book onto individual events at gofod3 - so now not only are tickets running out but sessions are filling up too! Make sure you don't miss out by booking your free place at the gofod3 website.

Enjoy the newsletter and we'll see you all again next week.

Volunteering
Your chance to hear about the latest developments in Volunteering

The next round of engagement events from Third Sector Support Wales will focus on volunteering.
Pay and Equalities Survey 2018

According to the latest pay and equalities survey carried out by ACEVO, the charity sector has failed to significantly increase the proportion of chief executives coming from black and minority ethnic backgrounds.
Volunteers and the law

National Council for Voluntary Organisations (NCVO) have revised the comprehensive guide ‘Volunteers and the law’ helping to understand the legal rights and obligations when managing volunteers.
Making a difference to people who are disabled. Janices’ story

Janice Powers is a volunteer with Shelter Cymru and within this role she supports people who come into the project needing advice support or information with housing, benefits or debt.

WCVA general

WCVA statement: public trust and confidence in charities

WCVA have released a statement following Monday's announcement that the Charity Commission has opened a statutory inquiry into Oxfam.

Third sector general

Nesta launch Awards for 'Good Help'

Nesta are seeking applications from organisations that demonstrate they are helping people transform their lives through 'good help' activities.

Could you help financially vulnerable people access support for their water bills?

Welsh Water has a range of social schemes for vulnerable customers and is looking for third sector organisations that can help people access the support.

Funding

Welsh Government invites applications to Women's Suffrage Centenary Grant Scheme

Grants of between £500 and £20,000 are available to third sector organisations, community organisations and community groups for projects and/or events which will mark the 100th anniversary.

Postcode Community Trust launches first round of Community Grants Programme for 2018

The People's Postcode Community Trust was established in 2014 to support marginalised groups in obtaining the skills and resources to effect change in their own communities.

Training and events

Building relationships between social and private enterprises

A free workshop to explore and develop positive relationships between social enterprises and businesses.

Open Government Conference - 15 March, Belfast

Together with colleagues in Northern Ireland, Scotland and England, the Wales Open Government Network has been busy organising the Re-Imagine Democracy conference for Open Government, taking place in Belfast on Thursday 15 March.

Public engagement: theory and practice

Last chance! A comprehensive, accredited engagement training course

Engaging online

Get to know your online audience and create innovative content to meet their needs

Bilingualism at work

Training for third sector organisations on developing bilingual services

Safeguarding trainers workshops

Social Care Wales is offering three dates of free training workshops to support trainers to deliver the All Wales Basic Safeguarding Awareness pack, suitable for organisations working with children and adults at risk.

Policy and politics

This week's consultations

Do we need more AMs?